27.08.20

Bws Ysgol

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Gobeithiaf eich bod yn mwynhau wythnosau olaf y gwyliau ac yn parhau i gadw'n ddiogel. Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu'r plant nôl i flwyddyn academaidd newydd.

Yn dilyn trafodaethau yr wythnos hon, dyma ddiweddariad ynglŷn â'r bws ysgol.

- Amser cyrraedd a gadeal yr ysgol yn aros yr un peth.
- Fe fydd y gyrrwr a'r gofalwr yn gwisgo PPE llawn.
- Rhwng bob ysgol, fe fydd y bws yn cael ei glanhau.
- Fe fydd glanhau llawn yn digwydd bob nos.
- Does **dim bwyta neu yfed** o gwbl ar y bws (rhaid atgyfnerthu'r neges gyda'ch plentyn).
- Bydd rhaid i blant sydd ar y bws yn gyntaf fynd i'r cefn yn y bore, a'r plant sydd bant gyntaf yn y nos i eistedd ym mlaen y bws – mae hwn yn sicrhau bod plant ddim yn cerdded heibio ei gilydd.
- Rhaid annog y plant i wneud gwregys eu hun – os oes plentyn sy'n cael trafferth, fe fydd y gofalwr yn helpu.
- Rhaid i rieni ddod at ddrws y bws i helpu eu plentyn ddod lawr y grisiau.

Diolch unwaith eto am eich cydweithrediad a chefnogaeth barhaus.

Cofion Cynnes

Mrs L.Vaughan

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys
YGG Tyle'r Ynn
Llansawel Crescent, Llansawel, Castell Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan
Ffôn/Phone: 01639 812229
e-bost/e-mail: yggtylerynn@npt.school
Gwefan/Website: http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/